# GWEITHIO GYDA NI

# WORK WITH US

Estyn



## Dod yn Arolygydd Cofrestredig Meithrin

Ydych chi'n barod i ddechrau'ch cais? Neidiwch i'r cais

### Ynglŷn â'r rôl

Oes gennych chi ddealltwriaeth dda o sut mae plant ifanc yn dysgu ac yn datblygu? Ydych chi'n hyderus wrth farnu safonau plant 3 a 4 oed? A allwch chi nodi cryfderau a diffygion mewn darpariaeth ac arweinyddiaeth yn briodol?

Ydych chi'n dda am esbonio pethau heb ddefnyddio jargon ac yn gallu gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus? Ydych chi'n gallu casglu tystiolaeth yn gyflym a gwerthuso ei phwysigrwydd yn gywir? Ydych chi'n ysgrifennu'n glir ac yn gryno ac yn gwneud yn siŵr fod pobl eraill yn gallu deall yr hyn rydych chi am ei gyfleu yn hawdd?

Os gallwch chi roi ateb cadarnhaol i'r cwestiynau hyn, beth am ystyried dod yn Arolygydd Cofrestredig Meithrin?

### Cymhwysedd

Byddwch yn gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg, a byddwch:

- yn athro cymwysedig/athrawes gymwysedig ag o leiaf 3 blynedd o brofiad o addysgu plant 3 a 4 oed neu fod wedi gweithio fel athro/athrawes ymgynghorol (â Statws Athro Cymwysedig (SAC)) yn cefnogi lleoliadau nas cynhelir am o leiaf 2 flynedd.

Os gwnaethoch gais blaenorol i ddod yn Arolygydd Cofrestredig Meithrin, ond ni chawsoch wahoddiad i'r hyfforddiant, byddem yn hapus i ystyried cais newydd os ydych chi o'r farn bod eich profiad yn bodloni'n gofynion erbyn hyn.

### Dewis a hyfforddi

Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â chanlyniad eich cais erbyn DYDDIAD. Bydd yr hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd yn cynnwys:

- **Rhan un**

Cyfarfod ar-lein ar **8 Chwefror 2023**.

- **Rhan dau**
  Mae hyn yn cynnwys asesiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a gynhelir ar **14-16 Mawrth 2023** (lleoliad i'w gadarnhau).
- **Arolygiad(au) prawf**
  Cewch eich defnyddio mewn arolygiad asesedig, a bydd yr arolygydd arweiniol yn graddio eich perfformiad. Bydd angen i chi gael gradd A neu B i lwyddo.

Mae'r hyfforddiant yn rhad ac am ddim, a byddwn yn talu'ch costau teithio a chynhaliaeth ac am eich llety dros nos (os byddwch yn gymwys) yn unol â'n polisi teithio a chynhaliaeth.

## Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Os cewch eich gwahodd i'r hyfforddiant, gofynnwn i chi gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Dylai'r dystysgrif fod yn dystysgrif fanwl, nad yw'n fwy na thair oed a dylai gynnwys y categori gweithlu plant. Bydd angen y gwiriad hwn arnoch i fod yn Arolygydd Cofrestredig Meithrin.

## Defnyddio

Mae Arolygwyr Cofrestredig Meithrin yn cyflwyno tendrau i weithio â ni. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar ba mor aml y gallant arolygu i ni yn ystod y flwyddyn academaidd.

Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd pob arolygydd i fynychu hyfforddiant diweddaru; rhaid i chi fynychu'r hyfforddiant hwn er mwyn gallu parhau i fod yn arolygydd. Ni chodir tâl am yr hyfforddiant, ond ni allwn dalu costau cyflenwi na chostau teithio a chynhaliaeth.

## Sut i wneud cais

**Ffurflen gais ar-lein:** https://www.smartsurvey.co.uk/s/8S8L8K/
**Dyddiad cau:** **3 Ionawr 2023, 10y.b.**

Byddwn yn cysylltu â phawb gyda chanlyniad eu cais erbyn **6 January 2023**.

Mae unrhyw feysydd â * wrth eu hymyl yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb yn y meysydd hyn. Os na fyddant yn berthnasol i chi, rhowch 'Dd/B'.

## Manylion cyswllt

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen am y rôl a'r broses ymgeisio, ond os oes gennych ragor o gwestiynau, anfonwch neges e-bost atom: digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 02920 44 6510.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.